Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Trydydd Sector Cymru








“Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a hyrwyddo’r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi’r Trydydd Sector am y cyfraniad a wna’r Sector i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, a’i phobl a’i chymunedau.”

## Adroddiad Blynyddol 2019-20

Ebrill 2021



Menyw sy'n gwirfoddoli i'r British Heart Foundation.

Cydnabyddiaeth am y lluniau: Cafwyd caniatâd i ddefnyddio pob llun

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG42560 ISBN digidol 978-1-80195-359-7 ISBN argraffu 978-1-80195-361-0

# Cynnwys

**Yn yr adroddiad hwn ceir trosolwg o'r modd y rhoddwyd Cynllun y Trydydd Sector ar waith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019-20.**


Rhagair – Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip 4

Cipolwg gan y Sector/Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru 6

1 Diben a chefndir/Cynllun y Trydydd Sector 7
- 1.1 Beth yw'r Trydydd Sector? 7
- 1.2 Cynllun y Trydydd Sector 8
- 1.3 Ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector 9

2 Beth ddigwyddodd yn 2019-20 10
- 2.1 Deialog a Chydweithredu 10
- 2.2 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector 11
- 2.3 Cyfarfodydd Gweinidogion 12
- 2.4 Ymgyngoriadau 12
- 2.5 Datblygu Polisi 13

3 Ariannu a Chefnogaeth i'r trydydd sector gan Llywodraeth Cymru 15
- 3.1 Ariannu gan Llywodraeth Cymru i gefnogi TSSW yn 2019-20 17
- 3.2 Cefnogaeth arall ar gyfer y trydydd sector 18

4 Rhagor o Wybodaeth 19

Atodiad A (Tabl o Feysydd Diddordeb Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac Arweinwyr Rhwydweithiau) 20

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Trydydd Sector Llywodraeth Cymru, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Ddechrau'r flwyddyn, roeddem yn canolbwyntio ar ein hymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd ond, erbyn diwedd y flwyddyn, llifogydd a phandemig byd-eang oedd y prif ffocws. Amlygwyd yr anghydraddoldebau sydd wedi gwreiddio yn ein cymunedau mwyaf agored i niwed, gan hefyd ddangos pa mor dda y gallwn gydweithio a chefnogi ein gilydd.

Ledled Cymru, mae pobl bob amser wedi dangos caredigrwydd i'r rhai sydd â'r angen mwyaf am gymorth. Mae'r straeon sy'n dangos enghreifftiau o dosturi a chefnogaeth yn dilyn y dinistr a achoswyd gan Storm Dennis wedi bod yn galonogol.

Wrth edrych yn ôl, dechreuodd y flwyddyn yn debyg iawn i'r ffordd y daeth y ddiwethaf i ben o ran yr ansicrwydd ynghylch ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Roeddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod y sector mor barod â phosibl ac yn gallu ymateb i oblygiadau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Hyd yn oed yn y dyddiau cynnar hynny, roedd y sector yn dechrau gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau a chymorth, yn enwedig cynnydd yn y defnydd o wasanaethau digidol.

Dyna pam rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym sector cryf a chadarn yng Nghymru drwy fuddsoddi yn y rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru. Mae'n cynnwys 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac mae'n hanfodol i ddarparu cymorth i sefydliadau a gwirfoddolwyr y trydydd sector. Mae'n rhoi iddynt y sgiliau, y cyngor a'r gefnogaeth i allu ymateb i anghenion eu cymunedau.

Yn ogystal â hyn, dyma'r flwyddyn y gwnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng o ran yr hinsawdd. Mae'r sector wedi chwarae rôl gynyddol bwysig wrth ddangos yr effaith yr ydym yn ei chael ar ein hinsawdd a'n hamgylchedd, a bydd yn parhau i wneud hynny. Mae hefyd yn galluogi unigolion, drwy waith gwirfoddol, i wneud gwahaniaeth gwirioneddol ar lefel leol yn eu cymunedau.

Rydym yn hynod ffodus bod Cynllun y Trydydd Sector a Chyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn sail i'r holl weithgareddau hyn. Maent yn darparu cyngor ac arweiniad strategol i helpu gweinidogion i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau, yn ogystal ag ymgorffori arferion da. Dyna pam rwy'n falch o ddweud y bydd Pwyllgor Ariannu a Chydymffurfiaeth Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn cyhoeddi cynllun gwaith yn 2021.

Wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, gwnaethom ddechrau gweld effeithiau Covid-19. Ychydig a wyddem beth oedd i ddod. Fodd bynnag, yr hyn a oedd yn amlwg, hyd yn oed yn y dyddiau a'r wythnosau cynnar hynny, oedd cryfder gwaith gwirfoddol yn ein cymunedau, boed yn waith ffurfiol neu anffurfiol. Unwaith eto, gwelwyd pobl Cymru yn dod at ei gilydd, gan weithio mewn partneriaeth ac edrych allan am ei gilydd.

Amlygwyd hefyd bwysigrwydd, cryfder a dyfeisgarwch ein trydydd sector, y staff a'r gwirfoddolwyr, wrth iddynt ymateb yn gyflym i'r cyfyngiadau cychwynnol a ddaeth yn sgil y pandemig.

Hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am y caredigrwydd yr ydych wedi'i ddangos i eraill. Drwy eich dyfeisgarwch, rydych wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Diolch am bopeth rydych wedi'i wneud.





**Jane Hutt AS**
Y Dirprwy Weinidog
a'r Prif Chwip

# Cipolwg gan y Sector

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Erbyn diwedd 2019-20, roedd y sector gwirfoddol yn gweithredu'n gyflymach ac yn fwy pwrpasol nag erioed o'r blaen yng nghanol dau argyfwng gwahanol. Yn gyntaf, yn gynnar yn 2020, tarodd Storm Dennis drefi a phentrefi ledled y wlad, gan achosi llifogydd difrifol a chaledi. Fe wnaeth y rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, partneriaeth o 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol lleol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ddarparu cyllid brys i sefydliadau ar lawr gwlad gan helpu'r rhai mwyaf anghenus – er enghraifft, gyda phwmpio dŵr llifogydd neu gynorthwyo teuluoedd i gael dodrefn newydd a nwyddau tŷ.

Yna, dechreuodd pandemig y coronafeirws ledaenu ar draws y wlad. Ffurfiwyd grwpiau cymunedol newydd i gynorthwyo â siopa, dosbarthu presgripsiynau a gwasanaethau ar-lein. Roedd elusennau cenedlaethol mawr yn gallu cydlynu ymdrechion a rhoi cymorth i sefydliadau llai o faint. Ffurfiwyd cysylltiadau newydd rhwng y sector gwirfoddol a chyrff statudol, a gwelwyd y diddordeb mwyaf erioed mewn gwirfoddoli.

Dim ond dwy enghraifft yw'r rhain sy'n dangos pam mae'r sector gwirfoddol yn rhan gwbl hanfodol o adeiladwaith cymdeithas. Fodd bynnag, mae'r sector yn gwneud cymaint mwy i wella bywydau pobl a chymunedau ledled Cymru, fel gwella'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, darparu trafnidiaeth gymunedol, helpu pobl i gael hyfforddiant a chyflogaeth a chynghori pobl mewn amgylchiadau anodd ynghylch dyledion a thai.

Wrth gwrs, mae'r sector gwirfoddol bob amser wedi chwarae rhan allweddol ledled Cymru ac roedd yn gallu dangos hyn drwy gydol 2019-20. Er enghraifft, fe wnaeth Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru ar Brexit, partneriaeth rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phrifysgol Caerdydd, sy'n dwyn ynghyd lawer o sefydliadau o bob rhan o'r sector, barhau i fonitro effeithiau ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ar y sector gwirfoddol. Fe wnaeth ddwyn ynghyd wleidyddion, grwpiau sector a chyrff seilwaith fel NCVO, NICVA a SCVO, mewn cynhadledd yn Belfast. Hefyd, fe wnaeth aelodau'r Fforwm ymweld â Brwsel i siarad â chynrychiolwyr o'r UE ynghylch sut y gall y sector gynnal cysylltiadau ag Ewrop yn dilyn Brexit.

Parhaodd partneriaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru i ddarparu hyfforddiant, cyllid, cymorth a chyngor i sefydliadau o bob math yn y sector. Yn ystod y flwyddyn, roedd Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn falch o weithio ar weinyddu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gan arwain, er enghraifft, at lansio prosiect ailgylchu newydd llwyddiannus yn y Gogledd, sef Recycling Helps You Live. Mae'n darparu hyfforddiant ac yn gwella ymwybyddiaeth cymunedau o fanteision ailgylchu plastig.

Mewn perthynas â'r amgylchedd, yn 2019-20, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng o ran yr hinsawdd a natur. Mae'r sector gwirfoddol yn fwy nag awyddus i gyfrannu at fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae prosiectau ynni cymunedol yn dod yn fwyfwy poblogaidd, gyda rhagor o ddiddordeb mewn cynlluniau tyfu cymunedol. Ym mis Mawrth, cafodd newid yn yr hinsawdd ei gyflwyno fel eitem graidd ar yr agenda ar gyfer pob un o gyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector.

Roedd y sector hefyd yn falch o allu parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru o dan Gynllun y Trydydd Sector, drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector dan gadeiryddiaeth Jane Hutt AS, a thrwy

rwydweithiau Cyfarfodydd Gweinidogion a hwylusir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd fforwm sector gwirfoddol rheolaidd cyntaf gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol eleni hefyd.

Mae'n bwysicach nag erioed bod y sector gwirfoddol a Llywodraeth Cymru yn gwneud y defnydd gorau o Gynllun y Trydydd Sector. Bydd yn helpu i greu newid gwirioneddol a chadarnhaol yng Nghymru wrth inni geisio adfer yn sgil y pandemig, gan symud tuag at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym yn cydnabod yr ymrwymiad parhaus ar draws y sector gwirfoddol a'i holl bartneriaid i weithio tuag at sicrhau bod hyn yn digwydd.



**Peter Davies CBE**
Cadeirydd, CGGC



**Ruth Marks MBE**
Prif Swyddog Gweithredol, CGGC

# 1. Diben a chefndir / Cynllun y Trydydd Sector

## 1.1 Beth yw'r Trydydd Sector?

Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu bron pob agwedd ar fywyd. Mae'n cynnwys sefydliadau cymunedol, grwpiau hunangymorth, sefydliadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau seiliedig ar ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau cydfuddiannol, i enwi dim ond rhai.

Mae gan y trydydd sector amrywiaeth o ffurfiau sefydliadol, yn cynnwys elusennau cofrestredig a rhai heb eu cofrestru, Cwmnïau Cyfyngedig drwy Warant (a all fod yn Elusennau Cofrestredig hefyd), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig. Mae gan bob sefydliad ei nodau, ei ddiwylliant arbennig a'i werthoedd ei hun, ynghyd â'i ffordd ei hun o wneud pethau, ond maent i gyd yn rhannu rhai nodweddion pwysig, a ddangosir isod.

**Mae'r Trydydd Sector yn cwmpasu bron pob agwedd ar fywyd. Mae rhai nodweddion pwysig yn gyffredin rhyngddynt sef:**

**Cyrff annibynnol ydyn nhw nad ydyn nhw'n perthyn i lywodraeth ac a sefydlwyd yn wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis eu trefnu.**



**Mae gwerthoedd yn bwysig iddyn nhw a chânt eu harwain gan awydd i hyrwyddo amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol yn hytrach na'r awydd i wneud elw.**



**Ymrwymiad i ail-fuddsoddi'r hyn sydd dros ben i hyrwyddo eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.**



**Rydym yn parhau'n grediniol y dylid ystyried y cyrff sydd â'r nodweddion hyn fel rhai sy'n perthyn i "sector" unigryw.**

**Active Across Wales.**

| 32,000 | £1.258bn | 938,000 |
|---|---|---|
| o fudiadau gwirfoddol | Incwm amcangyfrifedig y trydydd sector yng Nghymru yn 2018-19 | o wirfoddolwyr |




Mae Rhwydwaith Cydgynhyrchu Abertawe yn brosiect a nodwyd yn strategaeth comisiynu anabledd Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe i gefnogi a chynnwys pobl anabl, gofalwyr a sefydliadau sy'n eu cefnogi i gyd-gynhyrchu gwasanaethau gyda phartneriaid statudol. Buont yn gweithio gyda'u hawdurdod lleol a phartneriaid eraill i sicrhau mynediad at wasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol, gyda chymorth Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe.

## 1.2 Cynllun y Trydydd Sector

Caiff Cynllun y Trydydd Sector ei lunio o dan Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio Cynllun, sy'n ddatganiad o fwriad Gweinidogion Cymru i gefnogi a hyrwyddo, wrth arfer eu dyletswyddau fel Gweinidogion Cymru, buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar gyfer 2019/20 yn dangos sut y cafodd cynigion a nodwyd yng nghynllun y trydydd sector eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol honno.

Mae testun y ddeddfwriaeth i'w weld drwy'r ddolen isod:
www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/74

Amcan Cynllun y Trydydd Sector yw cael partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector sydd â'r bwriad o'n helpu i ddatblygu a chefnogi prosesau a fydd, yn y pen draw, yn arwain at y canlynol:

- **Cymunedau cryfach a mwy cadarn** – y ffordd y mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwneud cyfraniad gwirfoddol at ffyniant ac adfywiad eu cymunedau, darparu gofal a helpu i feithrin hyder a sgiliau pobl; a'r cyfleoedd y mae'r trydydd sector yn eu creu o ran cyflogaeth a mentrau lleol;
- **Polisi gwell** – yr wybodaeth a'r arbenigedd y mae'r trydydd sector yn eu cynnig drwy ei brofiad rheng flaen er mwyn helpu i lunio polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau;
- **Gwasanaethau cyhoeddus gwell** – y rôl arloesol a thrawsnewidiol sydd gan y trydydd sector wrth wneud i wasanaethau cyhoeddus gyrraedd mwy o bobl a dod yn fwy sensitif i'w hanghenion.

## Cynllun y Trydydd Sector

**Rhannu syniadau a gwybodaeth**



**Cynllunio ar y cyd**



**Monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau**



**Sicrhau arian ar gyfer pob maes polisi**



**Diddordeb cytûn yn y ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn cydweithio â'r Trydydd Sector**



**Themâu trawsbynciol y cynllun:**
- **Mynd i'r afael â thlodi**
- **Datblygu cynaliadwy**
- **Cydraddoldeb**
- **Y Gymraeg.**

Mae disgwyl i holl Aelodau'r Cabinet, Dirprwy Weinidogion a swyddogion hyrwyddo buddiannau'r trydydd sector yn eu gwaith a'r penderfyniadau a wnânt. Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i'r canlynol:

- cynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori ystyrlon gyda'r trydydd sector;
- cynnal trefniadau ar gyfer cynorthwyo cymunedau a gwirfoddolwyr;
- cynnal trefniadau ar gyfer cefnogi strwythurau sy'n caniatáu i'r trydydd sector ffynnu;
- ceisio cadw at y Cod Ymarfer ar gyfer Cyllido'r Trydydd Sector (sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad i'r Cynllun).

Mae'n ymdrin â threfniadau ar gyfer ymgynghori, gweithio mewn partneriaeth gyda'r sector, a chyllido hefyd.

Dyma ddolen i'r Cynllun:
www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/cynllun-y-trydydd-sector-2014_0.pdf

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r trefniadau hyn.

# 2. Beth ddigwyddodd yn 2019-20?

**Mae'r Cynllun yn nodi'r trefniadau ffurfiol ar gyfer ymgysylltu mewn 5 maes:**

## 2.1 Deialog a Chydweithredu

Roedd y gwaith hwn yn cynnwys cytuno ar drefniadau ymarferol, deialog a chyfnewid gwybodaeth. Un enghraifft dda o roi hyn ar waith a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i randdeiliaid yn ystod y cyfnod adrodd hwn yw'r prosiect "Grymuso Cymunedau":

Astudiaeth Achos

### Y prosiect "Grymuso Cymunedau"

Rhwng 2018 a 2020 darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i sectorau ledled Cymru i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE. Roedd hyn yn cynnwys Cronfa Bontio'r UE a oedd yn werth £50 miliwn. Dyfarnwyd £150,000 o'r cyllid hwn i Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i lenwi bwlch yn yr wybodaeth o ran deall sut y gallai'r broses ymadael effeithio ar argaeledd gwasanaethau cymunedol i bobl a chymunedau, hyfywedd ariannol y sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau hyn, a'r gweithlu (sydd o bosibl yn dibynnu ar ddinasyddion yr UE neu ddinasyddion o'r tu allan i'r UE), ac i helpu'r trydydd sector i gynllunio ar gyfer unrhyw sefyllfaoedd posibl.

Datblygwyd prosiect ymchwil ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gyda grŵp llywio (yn cynnwys arbenigedd o bob rhan o'r trydydd sector ac adrannau'r Llywodraeth) i ddarparu goruchwyliaeth ac arweiniad. Cwblhawyd yr adroddiad "Grymuso Cymunedau" dilynol yn gynnar yn 2020.

Roedd yr adroddiad yn amlygu'r angen i wella llais y sector a darparu dull ar gyfer ymgysylltu â sefydliadau a rhwydweithiau'r DU a'r UE. Roedd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru eisoes wedi dechrau nodi'r ffyrdd y gallai'r sector ymgysylltu â Rhwydweithiau Ewropeaidd. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad gan Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop yn 2019, gyda'r nod o ffurfioli sut y gallai'r sector barhau i weithio gyda'r pwyllgor.

Trefnwyd yr ymweliad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a chafodd y rhai a oedd yn cymryd rhan eu recriwtio drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Cafwyd cymorth gan swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel a oedd yn gyfle i hyrwyddo Strategaeth Ryngwladol newydd Llywodraeth Cymru. Roedd trawstoriad da o bobl yn bresennol, yn cwmpasu ystod eang o fuddiannau'r trydydd sector, gan gynnwys cymysgedd o bobl brofiadol ac eraill o'r UE yr oedd hyn yn brofiad newydd iddynt.

Amlygwyd yn y cyfarfodydd y byddai ymgysylltu'n barhaus ac yn fwy aml â rhwydweithiau Ewropeaidd ar ôl diwedd y cyfnod pontio yn hanfodol gan mai ymadael â'r Undeb ydym ni, ac nid Ewrop ei hun. Hefyd, mae llawer o'r materion y mae'r sector yng Nghymru yn eu hwynebu yr un rhai â'r materion a wynebir yn Ewrop. Drwy barhau i ymgysylltu, bydd cyfle i rannu profiadau ac arferion da. Gellir creu cysylltiadau newydd neu rai cryfach ag amrywiaeth o strwythurau'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â gwirfoddoli, hiliaeth, iechyd, ffydd, democratiaeth gyfranogol, mudo a'r amgylchedd.

## 2.2 Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector

Mae Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector yn helpu Llywodraeth Cymru i weithio gyda sefydliadau trydydd sector i ddatblygu polisïau a gwasanaethau gwell. Yn ystod y cyfnod adrodd cafodd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ei gadeirio gan Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip. Roedd y Cyngor yn cynnwys cynrychiolwyr o rwydweithiau trydydd sector a oedd yn gweithio ar draws 25 o feysydd gwaith yn y trydydd sector, ynghyd â Phrif Swyddog Gweithredol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (gweler Atodiad A).

Yn 2019-20 cafwyd dau gyfarfod Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector o dan nawdd Cynllun y Trydydd Sector. Yn ystod 2019-20, cydweithiodd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a Llywodraeth Cymru i nodi ffyrdd o wella gweithrediad Cynllun y Trydydd Sector, gan drafod pynciau fel:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cynllun Gweithredu Llywodraeth Agored
- Absenoldeb arbennig ar gyfer Cam-drin Domestig
- Yr Argyfwng o ran yr Hinsawdd.

Mae cofnodion cyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wedi'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru:

www.llyw.cymru/cyngor-partneriaeth-y-trydydd-sector

## 2.3 Cyfarfodydd Gweinidogion

Mae gan Gymru enw da yn rhyngwladol fel gwlad lle mae mynediad at lunwyr polisi a Gweinidogion yn golygu ei bod yn hyrwyddo llywodraethu da. Mae'r trydydd sector yn cyfarfod pob un o Weinidogion Llywodraeth Cymru i drafod materion sy'n berthnasol i'w portffolio.

Mae cyfarfodydd â Gweinidogion yn ategu ymgysylltu dydd i ddydd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r trydydd sector drwy ganolbwyntio ar faterion polisi strategol sy'n effeithio ar fwy nag un rhan o'r trydydd sector.

Yn 2019-20 cynhaliwyd 11 cyfarfod rhwng Gweinidogion Cymru a sefydliadau trydydd sector dan nawdd Cynllun y Trydydd Sector. Roedd y pynciau a drafodwyd yn cynnwys:

- Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
- Modelau Arloesol o Dai Cymunedol yng Nghymru
- Yr Economi Sylfaenol
- Y Cwricwlwm Newydd
- Dysgu Blynyddoedd Cynnar
- Mynediad at Ddysgu Gydol Oes

Hefyd, ymgysylltodd Gweinidogion Cymru â sefydliadau trydydd sector mewn nifer o ffyrdd gwahanol y tu allan i'r cyfarfodydd ffurfiol hyn – gan gynnwys ymweld â sefydliadau, mynd i ddigwyddiadau a chynadleddau, a thrwy gyfrwng gohebiaeth neu gyfarfodydd uniongyrchol gyda grwpiau neu sefydliadau unigol i glywed yn fwy penodol am faterion a oedd yn effeithio arnynt hwy.

Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn â Gweinidogion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru/node/9279/latest-external-org-content

## 2.4 Ymgyngoriadau

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i weithdrefnau ar gyfer ymgynghori ynghylch newidiadau polisi a datblygiadau polisi newydd sy'n effeithio ar y trydydd sector, gan gynnwys:

- cyfleoedd i barhau i gynnal trafodaethau rhwng y Trydydd Sector, buddiannau gwirfoddoli a Llywodraeth Cymru i sicrhau dealltwriaeth a chyfraniad cynnar wrth ddatblygu polisi
- trefniadau ymgynghori sydd fel arfer yn caniatáu digon o amser i ymgynghori'n ehangach â rhwydweithiau a defnyddwyr gwasanaethau
- cefnogi rôl cyrff ambarél a chyfryngwyr wrth hwyluso ymgyngoriadau
- rhoi adborth i ymatebwyr ynghylch ymatebion i ymgyngoriadau a'u canlyniadau
- cyfleoedd i'r sector barhau i gymryd rhan yn ystod camau gweithredu a gwerthuso'r polisi.

Cyhoeddwyd 79 o ymgyngoriadau rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Mae'r manylion ar wefan Llywodraeth Cymru yma: www.llyw.cymru/ymgyngoriadau?keywords=&field_consultation_status=All&All_=All&published_after=01/04/2019&published_before=31/03/2020

Enghraifft o ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn 2019/20 lle'r oedd y trydydd sector yn gallu cyfrannu at ddatblygu polisi a dylanwadu arno oedd yr ymgynghoriad ynghylch **Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol – Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.**

Roedd yr ymgynghoriad hwn, a gynhaliwyd rhwng 22 Tachwedd 2019 a 17 Ionawr 2020, yn ceisio safbwyntiau ynghylch sut, wrth wneud penderfyniadau strategol fel 'penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion', y gallai ystyried effeithiau economaidd-gymdeithasol leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfanteision economaidd-gymdeithasol.

O'r 98 o ymatebion a gafwyd gan y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, cafwyd 63 o ymatebion gan sefydliadau trydydd sector unigol - daeth 35 o ymatebion drwy'r porth ar-lein ac roedd 14 ohonynt wedi'u cwblhau a 21 ohonynt wedi'u cwblhau yn rhannol.

Gallwch weld yr ymgynghoriad hwn drwy ddilyn y ddolen a ganlyn: www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-11/cymru-fwy-cyfartal-cychwyn-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol.pdf Mae'r ddogfen ymateb gysylltiedig i'w gweld yma: www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-02/crynodeb-or-ymatebion.pdf

Roedd yr ymgynghoriad yn gobeithio cael safbwyntiau ynghylch cynnig Llywodraeth Cymru i gychwyn Rhan 1, Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Roedd yn gofyn i ba gyrff cyhoeddus y bydd y ddyletswydd yn berthnasol a sut y gellir cyflawni'r ddyletswydd.

Dosbarthwyd yr ymgynghoriad yn electronig drwy gyfryngau cymdeithasol a chafodd ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru hefyd. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu allanol gyda rhanddeiliaid, cyrff cyhoeddus a sefydliadau trydydd sector yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad Effaith Rheoleiddiol DRAFFT. Dyma'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ar gychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ("y ddyletswydd"). Mae'n ategu'r ddogfen ymgynghori gysylltiedig ac yn nodi'r manteision a'r costau posibl a allai ddeillio yn sgil cychwyn y ddyletswydd. www.gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-11/regulatory-impact-assessment_0.pdf

Yn dilyn yr ymgynghoriad comisiynnodd Llywodraeth Cymru Grwp Gweithio, a oedd yn cynnwys cynrhychiolwyr o'r trydydd sector, i ystyried yr ymateb a gwneud argymellion i weinidogion y Llywodraeth.

Daeth rheolau Gwasanaethau dadleuwriaeth rheoledig (Darparwyr Gwasanauethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) i orfodaeth ar 29ain Ebrill 2019, a chyhoeddwyd cyfarwyddiadau statudol yn Ebrill 2019. Gellir cael copi o'r cyfarwyddiadau yma:

https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-gwasanaethau-eirioli-rheoleiddiedig

## 2.5 Datblygu Polisi

O dan Gynllun y Trydydd Sector, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn ystyried, mewn cam ffurfiannol, oblygiadau i'r trydydd sector yn sgil unrhyw bolisïau newydd neu newidiadau. Mae'r ymgysylltu hwn â'r sector yn allweddol i lywio datblygiad polisi ac i helpu i lywio gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion pobl yng Nghymru. Enghraifft o'r ymgysylltu hwn a'i fanteision ymarferol posibl i gymunedau Cymru yw'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Gwaith Ieuenctid:



Grŵp Gwirfoddolwyr ESOL Oasis Caerdydd

# Astudiaeth Achos

## Datblygu polisi Gwaith Ieuenctid – dull sector cyfan

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019) www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cymru.pdf yn nodi gweledigaeth lefel uchel a gefnogwyd ac y cytunwyd arni gan y sector gwaith ieuenctid cyfan. Cyhoeddwyd y Ddogfen Weithredu www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/gweithredu-strategaeth-gwaith-ieuenctid.pdf a oedd yn sail i'r cynllun yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Wrth ddatblygu'r ddwy ddogfen roedd yn hanfodol mynd i'r afael â materion a godwyd ynglŷn â'r strategaeth flaenorol a'r ffyrdd yr oeddem yn ymgysylltu â'r sector ac â phobl ifanc. Os oeddem am ddatblygu strategaeth gredadwy, gadarn y gellid ei chyflawni, roeddem yn ymwybodol bod angen iddi fod yn gyd-weithredol â'r sector.

Gwnaethom ddechrau drwy weithio'n agos iawn gyda'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro www.llyw.cymru/bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro sy'n cynnwys unigolion sy'n angerddol am waith ieuenctid. Roeddent yn cynrychioli'r sector statudol a'r sector gwirfoddol yn ogystal â'r byd academaidd, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac arbenigwyr yn y Gymraeg. Gwnaethant ymgysylltu â phobl ifanc i sicrhau eu bod yn gallu llywio'r gwaith a oedd yn digwydd. Yna, defnyddiwyd yr adborth gan bobl ifanc fel sail ar gyfer gweithio'n agos gyda'r sector i ddatblygu strategaeth a oedd yn addas i'r diben, a oedd yn cwmpasu'r sector cyfan, ac a oedd yn uchelgeisiol.

Er ein bod yn ariannu pob un o'r 22 o awdurdodau lleol i wneud gwaith ieuenctid, dim ond wyth sefydliad gwirfoddol cenedlaethol yr ydym yn eu hariannu, ac roedd yn amlwg bod angen i ni ehangu'r ymgysylltiad â'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod ganddynt lais cyfartal. Fe wnaethom hefyd weithio'n agos gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol www.cwvys.org.uk/?lang=cy a oedd yn gallu estyn at eu haelod-sefydliadau i gael eu hadborth. Roeddem yn bresennol mewn trafodaethau grŵp a drefnwyd gan y Cyngor i alluogi'r sector gwirfoddol i ofyn cwestiynau inni yn uniongyrchol, yn ogystal â rhoi adborth ar ddrafftiau cynnar o'r strategaeth.

Roedd y ffordd hon o weithio yn ein sicrhau bod y sector gwirfoddol yn teimlo ei fod yn rhan o'r trafodaethau. Roeddem yn gallu gwneud newidiadau o ganlyniad i'w mewnbwn, a gwnaethom sicrhau bod y sector ehangach yn cefnogi'r weledigaeth derfynol. Roedd y dull hwn yn hynod werthfawr wrth ddatblygu'r strategaeth ac mae'n parhau i fod yn fuddiol wrth i ni ddechrau sefydlu'r Strategaeth yn awr. Rydym yn credu ein bod wedi creu amgylchedd lle mae'r sector yn gwybod y gall gysylltu â Llywodraeth Cymru am wybodaeth neu gyngor, neu ddweud eu dweud os yw am wneud hynny. Bydd hyn ond yn gallu cryfhau ein gwaith.

# 3. Cyllid Llywodraeth Cymru a chefnogaeth ar gyfer y Trydydd Sector




Mae Tŷ Hafan wedi cefnogi 800 o blant a 770 o deuluoedd o bob rhan o Gymru. Cafodd ei siop ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei staffio gan wirfoddolwyr ac roedd cefnogaeth Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr yn amhrisiadwy o ran adeiladu a chefnogi'r tîm gwirfoddoli hwn.

Trwy roi cyllid craidd i'r rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru – sef partneriaeth sy'n cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol ledled Cymru – llwyddodd Llywodraeth Cymru i gefnogi Seilwaith y Trydydd Sector a fu, yn ystod 2019-20, yn cynrychioli, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r Trydydd Sector, ynghyd â bod yn atebol iddo, a hynny ar bob lefel.

Roedd y gefnogaeth hon yn canolbwyntio ar 4 piler allweddol; Gwirfoddoli, Llywodraethu Da, cyllid cynaliadwy, ac ymgysylltu â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus a dylanwadu arnynt.

Cyhoeddodd Cefnogi Trydydd Sector Cymru ei **Adroddiad Effaith** yn 2019-20. Roedd hon yn flwyddyn o adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2018-19 i newid a gwella rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, lle gwnaethant ddatblygu a pharhau i wella eu gwaith drwy ddefnyddio systemau digidol yn well i gefnogi'r unigolion a'r sefydliadau gan gynnwys:

- Gwirfoddoli Cymru – www.volunteering-wales.net
- Cyllid Cymru – www.funding.cymru
- Infoengine – www.infoengine.wales
- Hwb Gwybodaeth newydd – (www.thirdsectorsupport.wales/) a fyddai'n darparu amrywiaeth o adnoddau defnyddiol a dysgu ar-lein i'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

Mae Adroddiad Effaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, sy'n darparu data ac astudiaethau achos i ddangos effaith cymorth Llywodraeth Cymru a Cefnogi Trydydd Sector Cymru mewn cysylltiad â'r 4 piler allweddol, wedi'i gyhoeddi yma: Adroddiad Effaith 2019-20 Cefnogi Trydydd Sector Cymru www.cvsc.org.uk/images/TSSW_IMPACT_REPORT_WELSH_final.pdf.

Mae'r tabl hwn yn dangos rhai o'r effeithiau lefel uchel sy'n cael eu cyflawni gan Cefnogi Trydydd Sector Cymru gyda chymorth Llywodraeth Cymru:

| Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) yn cynorthwyo mudiadau gwirfoddol, gwirfoddolwyr a gwirfoddoli ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. | |
|---|---|
| **4,175** o wirfoddolwyr wedi'u lleoli yn 2018-19 | **222,928** o daflenni ar redeg a rheoli sefydliadau wedi'u lawrlwytho o wefannau TSSW |
| **33,722** o ymholiadau ynghylch arfer da o ran rheoli gwirfoddolwyr wedi'u hateb gan TSSW | **£7,487,493** wedi'i ddosbarthu ar ffurf grantiau i'r Trydydd Sector gan Lywodraeth Cymru ac eraill |
| **693** o ddigwyddiadau hyfforddi a dysgu wedi'u trefnu, gyda **8,445** o gyfranogwyr | |

I gael rhagor o wybodaeth am y rhwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ewch i'w wefan: www.thirdsectorsupport.wales/cy/

## 3.1 Cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn 2019-20

| Dyraniadau | |
|---|---|
| Cefnogi Trydydd Sector Cymru – Cyllid craidd i Gynghorau Gwirfoddol Cymru a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – gweler isod ar gyfer dyraniadau siroedd unigol | £4,464,695 |
| Cronfa Gwirfoddoli Cymru | £1,271,112 |
| Cymorth Diogelu'r Trydydd Sector | £114,500 |
| Cronfa Newid y Trydydd Sector | £81,500 |
| Cronfa Meithrin Gallu Partneriaeth – grantiau i rwydweithiau Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector | £87,545 |
| **CYFANSWM** | **£6,019,352** |

Manylion Dyraniadau Cyllid Craidd i CGGC a Chynghorau Gwirfoddol Sirol unigol.

| Rhanbarth | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol | Craidd | Rhanbarth |
|---|---|---|---|
| **Betsi Cadwaladr (Gogledd)** | Conwy | £152,481 | £960,880 |
| | Sir Ddinbych | £151,771 | |
| | Sir y Fflint | £156,530 | |
| | Gwynedd | £199,089 | |
| | Ynys Môn | £148,573 | |
| | Wrecsam | £152,435 | |
| **Hywel Dda (Gorllewin)** | Sir Gaerfyrddin | £172,217 | £480,667 |
| | Ceredigion | £154,316 | |
| | Sir Benfro | £154,134 | |
| **Powys** | Powys | £315,957 | £315,957 |
| **Abertawe Bro Morgannwg** | Pen-y-bont ar Ogwr | £150,074 | £497,428 |
| | Castell-nedd Port Talbot | £152,193 | |
| | Abertawe | £195,161 | |
| **Caerdydd a'r Fro** | Caerdydd | £185,539 | £350,270 |
| | Bro Morgannwg | £164,731 | |
| **Cwm Taf** | Merthyr Tudful | £144,824 | £326,084 |
| | Rhondda Cynon Taf | £181,260 | |
| **Gwent** | Gwent | £583,797 | £747,296 |
| | Torfaen | £163,499 | |
| **Is-gyfanswm Cynghorau Gwirfoddol Sirol** | | **£3,678,582** | **£3,678,582** |
| **CGGC** | | **£786,113** | |
| **Cyfanswm** | | **£4,464,695** | |

# 3.2 Cymorth arall ar gyfer y trydydd sector

Nid cyllid Cefnogi Trydydd Sector Cymru oedd yr unig gyllid a ddarparwyd i sefydliadau trydydd sector ledled Cymru. Darparodd Llywodraeth Cymru gefnogaeth, cyllid craidd a chyllid prosiect i lawer o sefydliadau eraill yn y Trydydd Sector.

Mewn llawer o achosion, roedd y cyllid hwn yn ymwneud â meysydd gwaith arbenigol a chytunwyd ar y cyllid gan Weinidog priodol o Lywodraeth Cymru.

Yn 2019-20 dyfarnodd Llywodraeth Cymru £340 miliwn o gyllid uniongyrchol i'r trydydd sector.

Nid oedd hyn yn cynnwys gwariant caffael na thaliadau anuniongyrchol a wnaed i sefydliadau'r trydydd sector lle'r oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i sefydliad arall, er enghraifft awdurdod lleol, a allai fod wedi ariannu sefydliadau trydydd sector wedyn.

Mae **Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru** Llywodraeth Cymru yn gosod y fframwaith a'r egwyddorion y mae rhaid eu cymhwyso i Lywodraeth Cymru, ei chyrff a noddir, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru, ei chomisiynwyr, Cyngor y Gweithlu Addysg, Estyn ac is-gyrff Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf

Mae **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector** (y Cod) yn rheoli sut y dylai Llywodraeth Cymru a'i hasiantau ymdrin â chyllid y trydydd sector.

Mae'r Cod yn egluro'r mathau o gyllid y mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu, yr egwyddorion y dylid seilio penderfyniadau cyllido arnynt, a'r telerau a'r trefniadau ar gyfer cynnig cyllid. www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-01/cynllun-y-trydydd-sector-2014_0.pdf

Ni roddwyd gwybod am unrhyw achos o dorri'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd hwn.



Mae aelodau o'r teulu Sutton wedi bod yn cynorthwyo'r digartre yn y gymuned yn ystod COVID19 trwy helpu paratoi prydau bwyd.

# 4. Rhagor o Wybodaeth

I gael gwybodaeth am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector, ewch i: www.llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-rhoi-hwb-i-elusennau-sefydliadaur-trydydd-sector-yng-nghymru

Adroddiad Effaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru 2019-20 www.cvsc.org.uk/images/TSSW_IMPACT_REPORT_WELSH_final.pdf

I gael gwybodaeth am wirfoddoli, ewch i www.volunteering-wales.net/vk/volunteers/index.htm?lang=CY

neu ewch i'ch Canolfan Wirfoddoli neu eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol. www.wcva-ids.org.uk/?diablo.lang=cym

Fel arall, gallwch gysylltu ag Uned y Trydydd Sector yn thirdsectorqueries@llyw.cymru

I gael gwybodaeth am raglenni grant eraill, cysylltwch â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar 0300 1110124 neu ewch i'n gwefan www.wcva.cymru/cy/hafan/

I gael rhagor o wybodaeth am Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ewch i'w gwefan thirdsectorsupport.wales/cy/



Ennillodd Momena Ali
Gwirfoddolwr y Flwyddyn yn Gwobrau Elusen Cymru am ei gwaith yn arwain staff ac ymddiriedolwyr yn yr Ethinc Youth Support Team i'w helpu i dufu i fewn i'r syfedliad y mae heddiw.

# Atodiad A (Tabl o Feysydd Diddordeb Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector ac Arweinwyr Rhwydweithiau)

| Maes Diddordeb | Rhwydwaith |
|---|---|
| Cyngor ac Eiriolaeth | Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol |
| Lles Anifeiliaid | Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru |
| Y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth | Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Plant a Theuluoedd | Plant yng Nghymru |
| Cymuned | Yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau |
| Cyfiawnder Cymunedol | Community Justice Cymru |
| Anabledd | Grŵp Cyfeirio Anabledd Cymru |
| Addysg a Hyfforddiant | Addysg Oedolion Cymru |
| Cyflogaeth | Siawns Teg |
| Yr Amgylchedd | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Lleiafrifoedd Ethnig | BAME Alliance |
| Rhywedd | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru |
| Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant | Grŵp Cynllunio Iechyd, Gofal Cymdeithasol, Llesiant a Chwaraeon |
| Tai | Homes for All Cymru |
| Cyfryngwyr lleol a rhanbarthol | CVC Cymru |
| Rhyngwladol | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |
| Pobl Hŷn | Age Cymru |
| Crefydd | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| Rhywioldeb | Stonewall Cymru |
| Menter Gymdeithasol | Rhwydwaith Mentrau Cymdeithasol |
| Chwaraeon a Hamdden | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| Gwirfoddoli | Rhwydwaith Gwirfoddoli Cymru |
| Y Gymraeg | Mentrau Iaith Cymru |
| Ieuenctid | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru |